



BRIFF DYLUNIO COEDWIGAETH

TROSOLWG & HANES CYFFREDINOL

Mae'r cynllun adnoddau coedwigaeth newydd i Ddyffryn Dulais yn ymestyn dros 1,978Ha ac yn ymgorffori pum uned cynllun coedwigoedd blaenorol: Crynant Main, Dwyrain Crynant, Nant y Cafn, Nant Stalwyn a Seven Sisters. Mae rhan fwyaf o'r ystâd goed yn ymestyn ar hyd dwy ochr Dyffryn Dulais yn agos i gymunedau Crynant a Seven Sisters. Mae'r bloc mwyaf o goedwigaeth, Crynant Main, hefyd yn ymestyn dros Fynydd Marchywel i Ddyffryn Tawe, ac maent i'w gweld o gymunedau Pontardawe ac Ystalyfera.

Mae daearyddiaeth gyffredinol yr ardal yn cynnwys ochrau dyffryn graddol gyda phriddoedd da i gymedrol fel priddoedd brown ucheldirol a llwyfandiroedd uwchdirol mwy gwastad gyda phriddoedd salach gan gynnwys glei mawnog a rhai mannau corsiog bach. Mae uchder a natur agored yr ardal goedwigaeth yn amrywio o 100m uwchben lefel y môr ar lawr y dyffryn i 480m uwchben lefel y môr ar hyd Sarn Helen a chrib Hirfynydd. Mae hyn hefyd i'w weld yn sgoriau DAMS sy'n mesur natur agored yr ardal; maent yn amrywio rhwng 10 ar lawr y dyffryn a 20 ar gopaon y bryniau.

Plannwyd y rhan fwyaf o'r ardal goedwigaeth yn gyntaf yn yr 1950au yn dilyn yr ail ryfel byd. Mae llawer o'r cnydau cylchdro cyntaf wedi cael eu cwmpo a'u hail-stocio yn yr 20 mlynedd diwethaf ond yn fwy diweddar, mae ardaloedd eang o larwydd wedi cael eu cwmpo ac yn y broses o gael eu hail-stocio. Mae cyfran fawr o'r safleoedd a ail-stociwyd wedi bod yn llwyddiannus o ran sefydlu cnydau ifanc, ond mewn ychydig o ardaloedd, mae cnydau wedi methu gan achosi prysgwydd lled agored yn hytrach na choedwig ifanc sefydledig. Mae rhan o'r goedwig ym mloc coedwigaeth Seven Sisters a ddefnyddiwyd ar gyfer mwynloddio yn y gorffennol bellach yn rhan o brosiect adfer mwyn newydd. Gallai llawer o'r ardal hon fod yn addas ar gyfer ailgoedwigo yn arbennig mannau gyda phriddoedd addas.

Cwblhawyd y cynllun dylunio coedwigaeth blaenorol i Grynant Main a Nant Stalwyn yn 2012. Fodd bynnag, drafftwyd y cynllun yn ystod cyfnod yr achosion cyntaf o *Phytophthora* pan oedd y rhan fwyaf o'r llarwydd yn cael eu cwmpo a llawer o'r cnydau oedd ar ôl yn cael eu hadnabod fel Systemau Coedamaeth Bach eu Heffaith (LISS). Mae arolwg coedamaeth diweddar wedi awgrymu bod cyfran llawer llai o'r cnydau yn addas ar gyfer LISS yn enwedig yn rhannau gwlypaf a mwyaf agored y coedwigoedd. Drafftwyd ar gyfer Seven Sisters, Nant y Cafn a Dwyrain Crynant ddiwethaf yn 2002 ac mae'n hen bryd eu hadnewyddu. Yn adrannau hyn y cynllun ardal newydd, mae llawer o'r tir a ddynodwyd

fel LISS naill ai wedi gweld cwmpo eisoes oherwydd *Phytophthora* neu heb ei deneuo neu wedi hen basio'r oedran teneuo cyntaf. Yn gyffredinol, mae angen cynllun rheoli mwy realistig i'r ardal gyfan gydag ymagwedd fwy rhesymol at LISS a rheolaeth Coedwigaeth Gorchudd Parhaol. Mae angen diweddarau strwythur a rhywogaethau'r coedwigoedd i'r dyfodol gan fod oddeutu 250Ha o'r ardal goedwigaeth naill ai wedi cael ei gwerthu, wedi'i neilltuo i bori neu'n ffurfio rhan o brosiectau adfer mwyn.

AMCANION A BLAENORIAETHAU

Mae gan lawer o'r amcanion a'r blaenoriaethau isod nifer o fanteision, gan gynnwys rhai economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a gweithredol. Cyflwynir y briff gyda'r categorïau canlynol:

Rhaglen torri coed – Torrwyd y mwyafrif (240 Ha) o gnydau llarwydd oedd wedi'u heintio â *Phytophthora* rhwng 2010 a 2012 gan arwain at ardaloedd mawr heb eu stocio ar rai o lethrau is y goedwig. Mae rhai o'r cnydau llarwydd ifanc yn Nwyrain Crynant a'r holl llarwydd yn Nant y Cafn yn aros i gael eu cwmpo. Gyda rhai ardaloedd bach sydd heb eu gorffen yn Crynant Main a Seven Sisters, mae hyn yn rhoi cyfanswm o 60Ha ledled ardal y cynllun newydd. Er nad yw'n ardal eithriadol o fawr, mae'r mannau hyn, ynghyd â'r ardaloedd sydd eisoes wedi cael eu cwmpo a gwaith tacluso posibl ar gnydau a chwythwyd gan y gwynt ger llarwydd a dorwyd yn cyfateb i oddeutu 15% o'r ardal goedwigaeth. Mae mwyafrif yr ardaloedd hyn ar y llethrau is ac felly maent yn hygyrch; maent hefyd yn weladwy i fwyafrif poblogaeth Dyffryn Dulais.

Rheoli Coedwigaeth a Choedamaeth i'r Dyfodol

Yn gyffredinol, bydd effaith hirdymor y gwaith eang o gwmpo cnydau llarwydd wedi'u heintio ar reoli coedwigaeth yn arwain at y canlynol:

- Torri llai o glystyrau o faint, nifer a chyfaint pren.
- Cael gwared â'r cnydau llarwydd sydd ar ôl a chnydau sydd wedi'u chwythu gan y gwynt hyd at ffiniau'r fferm wynt.
- Cadw cnydau a oedd efallai dan ystyriaeth i gael eu torri ynghynt pe na bai *P. ramorum* wedi heintio'r cnydau llarwydd cyfagos.
- Cynnydd yng ngwaith teneuo cnydau mwy ymylol i helpu cynnal gorchudd coedwigaeth yn yr hirdymor.

Bydd cael gwared â llarwydd yn cael effaith ar gynllun rheoli hirdymor y goedwig. Un ffordd fawr o wneud iawn am yr holl gwmpo yn y blynyddoedd sydd i ddod yw drwy reoli'r cnydau sydd ar ôl gyda LISS/CCF lle bynnag bod amodau fel priddoedd, llethrau a phamor agored ydynt yn caniatáu hynny. Bydd y math o hwn o reoli yn ddibynnol ar arferion coedamaeth da ac ar deneuo cnydau presennol yn brydlon. Mae hyn hefyd yn bwysig wrth reoli Safleoedd Coetiroedd Hynafol.

Rhywogaethau a Chynefinoedd y Goedwig i'r Dyfodol - Bydd torri cnydau llarwydd ar raddfa eang yn arwain at gyfle i sicrhau mwy o amrywiaeth o ran cnydau conwydd a chnydau llydanddail cynhyrchiol yn yr hirdymor. Mae sicrhau amrywiad o ran rhywogaethau yn un o brif ysgogiadau rhaglenni rhywogaethau ac ail-stocio yn y dyfodol yn unol â dogfen CCC 'A Guide for increasing tree species diversity in Wales' 2010. Byddwn yn osgoi ungydau ar raddfa eang. Bydd rhywogaethau addas, cymysgedd o darddleoedd a chnydau meithrin yn cael eu hannog. Ni fydd llarwydd ac onn yn cael eu hail-blannu oherwydd *Phytophthora ramorum* a *Chalara fraxinaea*.

Bydd adfer corsydd, creu glaswelltir asid sy'n cael ei bori a manau agored eraill hefyd yn cael eu hadnabod ar raddfa'r FDP yn enwedig i Henebion Cofrestredig, ffyrddfreintiau llinellau pŵer, cynlluniau gwella'r dirwedd ac i agor golygfannau parhaol yn y goedwig.

Tirwedd a Hamdden – Rhoddir pwysigrwydd isel i hamdden ffurfiol er gwaetha'r ffaith bod y cymunedau lleol yn gwneud defnydd da o'r coedwigoedd. Er bod y coedwigoedd yn gefndir i dirwedd Dyffryn Dulais ac yn weladwy iawn, mae natur llydanddail llethrau graddol Dyffryn Dulais yn golygu bod yn rhaid sicrhau bod yr holl waith cwmpo llarwydd diweddar wedi cael ei blethu'n dda i'r dirwedd goediog, ac felly nid yw'r effaith gyffredinol wedi bod yn rhy ddramatig.

Safleoedd Coetiroedd Hynafol - Dyma gyfran fach o ardal y goedwig, er bod rheoli a chynllunio blaenorol wedi arwain at gynnydd cyffredinol yng nghoed llydanddail yn yr ail gylchdro yn enwedig yn Nyffryn Tawe ac ar lethrau is Coedwig Crynant Main yn Nyffryn Dulais. Mae ymestyn y coed llydanddail fel hyn yn cysylltu'n dda gyda gweddillion y Coetir Hynafol ac yn helpu creu cysylltedd da rhwng y coetiroedd brodorol yn y ddau ddyffryn.

Ystyriaethau Cadwraeth a Threftadaeth eraill

- Potensial ar gyfer cadwraeth gloynnod yn yr ardal adfer mwyn yn Seven Sisters
- Cadw Sarn Helen yn glir o goed, yn enwedig mewn manau corsiog

Dŵr

Nid yw'r dalgylchoedd dŵr sy'n gysylltiedig â'r ardal cynllun adnoddau hwn yn sensitif i asid ac felly nid oes angen asesiad asideiddio.

Mynediad a Chludo

Mae mynediad gweddol dda yn bodoli i bob rhan o'r goedwig er bod angen uwchraddio ychydig o seilwaith ar gyfer cludo pren. Mae mynediad trydydd parti yn bodoli yn Seven Sisters, Nant y Cafn a Crynant Main i gael mynediad ar fwyngloddio, cyfleustodau a phrosiectau Rhaglen Cyflenwi Ynni.